Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion

# Yr Uned Wenyn Genedlaethol

## Newid hen grwybrau magu

## Ebrill 2024

**Mae gosod crwybrau magu newydd yn rhan bwysig o'r gwaith arferol o reoli nythfeydd. Wrth i'r crwybrau magu heneiddio, gall olion cocynau, ysgarthion a glud gwenyn fynd yn sownd ynddynt. Mae newid crwybrau yn rheolaidd hefyd yn helpu i atal clefydau rhag ymledu a gweddillion o widdonladdwyr rhag cronni. Mae'r ffeithlen hon hefyd yn rhoi cyngor ar gylchdroi ac ailgylchu fframiau o gychod gwenyn.**

### Pam dylwn i newid hen grwybrau magu?

Wrth i'r cwyr yn y fframiau heneiddio, mae'n dechrau cronni pathogenau a chemegion o driniaethau â gwiddonladdwyr. Gall y fframiau hefyd gael eu difrodi neu gallant gynnwys symiau sylweddol o grwybr gwenyn gormes wedi'i osod mewn mannau anghyfleus.

### Pa mor aml y dylwn eu newid?

Mae'n arfer gorau newid crwybrau magu *o leiaf bob tair blynedd*. Fodd bynnag, dylech eu newid yn amlach os oes clefyd wedi bod yn y nythfa neu ar ôl defnyddio gwiddonladdwyr penodol yn fynych. Gall gwiddonladdwyr sy'n cynnwys y cynhwysion actif thymol neu 'tau-fluvalinate' adael gweddillion yn y cwyr. Gall defnyddio'r cynhyrchion hyn yn rheolaidd beri i'r cynhwysyn gronni yn y cwyr neu adael gweddillion ynddo. Felly, dylech newid fframiau sydd wedi dod i gysylltiad â nhw yn rheolaidd yn amlach.

### Sut y gallaf newid fframiau yn y cwch gwenyn sy'n cael eu defnyddio gan wenyn?

Mae dwy ffordd hawdd ac effeithiol o osod fframiau newydd yn lle hen fframiau, sef:

A. Rhoi crwybrau wedi'u tynnu parod yn lle hen grwybrau
B. Cyflawni techneg ‘Newid Crwybrau Bailey’

### **A.** Rhoi crwybrau wedi'u tynnu yn lle hen grwybrau

Er mwyn creu crwybrau wedi'u tynnu, caiff siambr fagu ei llenwi â fframiau o sylfaen a'i gosod dros atalfa brenhines ar nythfa gryf y mae brenhines ynddi. Dylech wneud hyn yn ystod llif mêl neu ni fydd y gwenyn yn ei dynnu â chwyr. Pan fydd y crwybrau wedi'u tynnu, gallwch eu storio i'w defnyddio fel crwybrau amnewid.

Tua diwedd y tymor, dylech symud fframiau sydd angen eu newid i ddeupen y siambr fagu. Yn ystod y gaeaf, nid oes unrhyw fag yn y fframiau hyn. Ar ddechrau'r gwanwyn, cyn i'r nythfa ddechrau ehangu'n gyflym, gallwch eu tynnu o'r nythfa a rhoi crwybrau wedi'u tynnu yn eu lle. Nid yw'n bosibl defnyddio sylfaen ar yr adeg hon oherwydd, heb lif mêl neu fwydo helaeth, ni fydd y gwenyn yn ei dynnu. Gallwch newid crwybrau ar ddiwrnod cynnes ym mis Mawrth. Sicrhewch fod cyflenwad digonol ar ôl ac, os nad oes, dylech fwydo'r gwenyn.

## B. Sut y gallaf gyflawni techneg Newid Crwybrau Bailey?

Paratowch siambr fagu lân wedi'i llenwi â fframiau o sylfaen. Gosodwch y siambr hon dros y siambr fagu bresennol ar nythfa y mae brenhines yndddi. Oni bai bod llif cryf o neithdar, bwydwch y gwenyn â surop siwgr wedi'i wneud o 1 kg o siwgr fesul 650 ml o ddŵr. Pan fydd y gwenyn wedi tynnu rhywfaint o'r sylfaen, dewch o hyd i'r frenhines â'i rhoi yn y siambr uchaf. Gosodwch atalfa brenhines dros yr hen siambr fagu isaf, gan ddal y frenhines yn y siambr uchaf. Os yw'n bosibl, trefnwch fynedfa newydd i'r cwch gwenyn rhwng y ddau focs magu a chaewch yr hen fynedfa. Mae hyn yn helpu i leihau faint o baill a gaiff ei storio yn yr hen grwybrau isaf. Ar ôl tair wythnos, tynnwch yr hen siambr fagu. Bydd y mag wedi deor ac, yna, gallwch doddi'r crwybrau er mwyn cael y cwyr gwenyn. Ceir diagram sy'n dangos techneg newid crwybrau Bailey yn Ffigur 1.


Mae'r system hon yn ddelfrydol ar gyfer newid yr holl grwybrau ar yr un pryd ac mae'n well gwneud hynny yn y gwanwyn, ar yr amod ei bod yn gynnes. Mae mis Mawrth yn addas, ond cofiwch barhau i fwydo'r gwenyn er mwyn sicrhau bod ganddynt yr egni sydd eu hangen arnynt i adeiladu'r crwybrau cwyr.

## Alla i roi sylfaen yn lle'r crwybrau magu?

Dylech fod yn ofalus wrth gyflwyno fframiau o sylfaen newydd mewn nythfeydd sefydledig â mag. Gall hyn greu problemau, yn enwedig mewn nythfeydd llai o faint, am fod angen nifer mawr o wenyn gweithgar i dynnu'r cwyr.


Mewn nythfeydd mag dwbl, gall sylfaen a roddir yn y siambr fagu isaf gael ei ddifetha, oherwydd gall y gwenyn gnoi'r sylfaen i ffwrdd, gan adael tyllau rhwng y crwybrau a bariau isaf y ffrâm. Mewn nythfeydd mag dwbl, gallwch osod nifer bach o fframiau o sylfaen yn y siambr fagu er mwyn atal hyn rhag digwydd. Peidiwch â rhoi sylfaen yng nghanol y nyth magu, mae'n well ei roi yn agos at ymyl y nyth magu. Peidiwch â gosod gormod o fframiau o sylfaen yn y bocs magu; defnyddiwch ddwy neu dair ar y mwyaf.

Mae bob amser yn well rhoi crwybrau wedi'u tynnu yn lle hen grwybrau mewn nythfeydd.





**DIWRNOD 1:**
Gosodwch y bocs o sylfaen a'r porthwr uwchlaw'r nythfa

**A:** Hen grwybrau, brenhines a mag
**B:** Bocs magu o sylfaen newydd




**DIWRNOD 7:**
Cymerir y frenhines o focs A ac fe'i rhoddir ym mocs B

**A:** Hen grwybrau a mag
**B:** Bocs o sylfaen wedi'i dynnu'n rhannol a brenhines




**DIWRNOD 21-24:**
Pan fydd yr holl fag wedi dod allan o focs A, gellir ei dynnu. Rhoddir y nythfa yn ôl at ei gilydd.

**A:** Hen grwybrau; gwag
**B:** Crwybrau newydd, brenhines a mag

**Ffigur 1.** Ffigur yn dangos sut i gyflawni techneg Newid Crwybrau Bailey.

## Sut y gallaf newid fframiau o sylfaen plastig?

Er y gallwch drin sylfaen plastig mewn ffordd debyg i sylfaen cwyr, cyn ei ychwanegu at y nythfa, rhaid rhoi haen o gwyr dros y sylfaen plastig. Dylech doddi cwyr newydd glân mewn *bain-marie* cyn ei rolio ar y sylfaen plastig; fel arall, gallwch ddowcio'r fframiau yn y cwyr. Ni fydd y gwenyn yn tynnu'r sylfaen yn hawdd heb yr haen denau hon o gwyr.

Gall sylfaen plastig gael ei ailddefnyddio sawl gwaith; caiff y cwyr, ynghyd ag unrhyw halogyddion neu weddillion cysylltiedig, eu crafu i ffwrdd a rhoddir haen newydd o gwyr wedi toddi ar y sylfaen.

## A all gwenyn dynnu crwybrau drwy gydol y tymor?

Ni fydd gwenyn yn tynnu crwybrau drwy gydol y flwyddyn nac o dan bob amgylchiad. Mae angen i frenhines fod yn y nythfa ac mae angen llif da o neithdar am fod y broses o greu cwyr yn gofyn am gryn dipyn o egni. At hynny, os bydd gan y nythfa ddigon o le storio mewn celloedd gwag, mae'n annhebygol o gael ei hysgogi i dynnu rhagor o grwybrau.

Er mwyn i gwyr gael ei dynnu, mae angen i'r amodau canlynol gael eu bodloni:

- llif da o neithdar neu fwydo â surop siwgr
- tywydd cynnes (er mwyn i'r gwenyn allu secretu cwyr)
- brenhines sy'n dodwy
- prinder lle yn y nythfeydd i storio rhagor o gyflenwadau
- digon o wenyn ifanc (gwenyn ifanc sy'n gwneud y cwyr)

## Beth os bydd fy sylfaen yn rhy hen?

Mae hen sylfaen yn tueddu i fynd yn galed ac yn frau ac mae gwenyn yn tueddu i gnoi tyllau ynddo. Gallwch ei adfer drwy ei gynhesu'n ofalus, sy'n rhyddhau'r olewau er mwyn iddo allu cael ei ailddefnyddio.

## Beth dylwn i ei wneud â'r hen fframiau?

Mae'n hawdd dinistrio fframiau a ddefnyddiwyd a hen grwybrau drwy eu llosgi a gosod fframiau a sylfaen newydd yn eu lle. Fodd bynnag, os hoffech achub y fframiau, gallwch doddi'r cwyr mewn boeler stêm a glanhau'r fframiau er mwyn iddynt allu cael eu hailddefnyddio.

Er mwyn gwneud hyn, gellir torri'r cwyr o'r fframiau a'i rannu'n ddau bentwr; cwyr sy'n edrych yn lân, o fframiau lloftydd mêl a fframiau mag llai eu defnydd, a chwyr sy'n edrych yn frwnt, o hen fframiau mag. Yna, caiff y cwyr ei doddi drwy ei gynhesu gan bwyll bach mewn dŵr; mae angen bod yn ofalus am fod cwyr poeth yn berygl tân ac yn peri risg o losgi. *Ni ddylech adael cwyr poeth heb neb i ofalu amdano na gadael iddo ferwi.* Wrth doddi cwyr, dylech wisgo menig diogelu rhag gwres a chyfarpar diogelu'r llygaid bob amser. Unwaith y bydd y cwyr wedi toddi, gallwch gael gwared arno os yw'n frwnt, neu ei ailgylchu os yw'n lân.

Gallwch olchi unrhyw fframiau heb eu difrodi sydd ar ôl mewn dŵr poeth (tua 80°C) wedi'i gymysgu â soda golchi/crisialau soda (wedi'u cymysgu ar 1 kg o grisialau soda fesul 4.5 litr o ddŵr) cyn eu hailddefnyddio â dalenni newydd o sylfaen neu stribedi dechreuol.

Peidiwch â chael gwared ar fframiau nad ydynt yn lân na chwyr yng ngwastraff y cartref. Os na chaiff y cwyr a'r fframiau eu diheintio drwy eu berwi neu eu llosgi, gallai unrhyw bathogenau sydd ynddynt fynd i mewn i'r amgylchedd.

## A oes unrhyw beth arall y dylwn fod yn ymwybodol ohono?

Gwnewch yn siŵr eich bod ond yn defnyddio bylchau ‘cul’ rhwng y fframiau; dyma'r bylchau safonol ar fframiau Hoffman ar gyfer cychod gwenyn Cenedlaethol.

Mae crwybrau ym mhen y bocs yn tueddu i beidio â chael eu tynnu ar yr wyneb allanol. Y rheswm dros hyn yw bod y gwenyn yn ei chael hi'n anos clystyru yno a chreu cwyr. Trowch y ffrâm rownd neu ei symud ymhellach i mewn i'r bocs er mwyn iddynt allu ei thynnu.

**National Bee Unit**
APHA, Room 11G03, York Biotech Campus,
Sand Hutton, York, YO41 1LZ UK
Rhif ffôn: 0300 303 0094
E-bost: nbu@apha.gov.uk
Gwefan: www.nationalbeeunit.com

Ebrill 2024

(h) Hawlfraint y Goron 2024

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau fersiwn 3 y Drwydded Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk